TGAU

# CBAC TGAU Hanes

Cymeradwywyd gan Cymwysterau Cymru

## Deunyddiau Asesu Enghreifftiol

Uned 3: Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd
Modern
Adran A: Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953
Adran B: Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau, tua 1880 - tua 1980

Addysgu o 2026
Dyfarnu o 2028

Fersiwn 1 (a)



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

Yn arbennig i Gymru.
Yn barod i'r byd.

Hoffai CBAC ddiolch i fyfyrwyr ac athrawon Ysgol Uwchradd Fitzalan, Caerdydd ac Ysgol Uwchradd Llanwern, Casnewydd am gymryd rhan yn y gwaith o greu'r cloriau hyn.

Cynnwys


| | |
|---|---|
| Papur Cwestiynau | 4 |
| Cynllun Marcio | 9 |
| Grid mapio | 34 a 35 |


SAMPL

**Hawlfraint**

© WJEC CBAC Cyfyngedig 2024.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 1 (a) | Yng nghwestiwn 8, mae 'tymor hir' wedi disodli 'hirhoedlog'. | 8 a 31 |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024.

**TGAU**

**3130NM**

**TGAU Hanes – Uned 3**
**Astudiaeth o gyfnod yn hanes y byd**
**3: Modern**

**1 awr**
**DEUNYDDIAU ASESU**
**ENGHREIFFTIOL**

SAMPL

**Deunyddiau ychwanegol**

Llyfryn ateb pinc 16 tudalen CBAC.

**Cyfarwyddiadau i ymgeiswyr**

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B.

Dylid ysgrifennu atebion i gwestiynau 3b, 4b / 7b, 8b mewn testun parhaus (brawddegau llawn a pharagraffau).

Defnyddiwch inc neu feiro du. **Peidiwch** â defnyddio beiro gel na hylif cywiro.

Ysgrifennwch eich atebion yn y llyfryn ateb ar wahân. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar flaen eich llyfryn ateb.

Defnyddiwch ddwy ochr y papur.

Ysgrifennwch rif y cwestiwn yn y ddau flwch ar yr ochr chwith ar ddechrau pob ateb, er enghraifft | 0 | 1 |

Gadewch o leiaf dwy linell rhwng pob ateb.

**Gwybodaeth i ymgeiswyr**

Mae nifer y marciau wedi'i nodi mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn.

Mae'n bosibl bod y ffynonellau a'r dyfyniadau a ddefnyddir yn yr uned hon wedi'u diwygio neu eu haddasu o'r gwaith cyhoeddedig a nodir er mwyn eu gwneud yn fwy dealladwy.

Gall y ffynonellau a ddefnyddir gynnwys geiriau nad ydynt bellach yn cael eu defnyddio'n gyffredin ac sydd bellach yn cael eu hystyried yn derminoleg ddifrïol. Mae eu cynnwys yn adlewyrchu amser a lleoliad y fersiwn wreiddiol o'r ffynonellau hyn.



© WJEC CBAC Cyf 2024.

Atebwch bob cwestiwn yn **naill ai** Adran A **neu** Adran B

## Adran A

### 3.5 Rwsia a'r Undeb Sofietaidd tua 1861 – tua 1953

**0 1** Disgrifiwch ddigwyddiadau allweddol y chwyldro Bolsiefigaidd ym 1917. **[5]**

**0 2** Esboniwch pam yr ildiodd Nicholas II y goron ym 1917. **[10]**

**0 3** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch newyn 1921–1922. **[5]**

**(b)** Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio Polisi Economaidd Newydd Lenin. **[15]**

| | |
|---|---|
| **Eitem 1** | Walter Duranty, newyddiadurwr Engl-Americanaidd ym Moscow, yn ysgrifennu yn yr erthygl *"Lenin Places Hope in his New Policy"* ar gyfer y *New York Times* (Medi 1921) |
| Mae'r polisi newydd yn anelu i helpu'r gwerinwyr. Mae adrannau ynddo, sy'n sefydlu rhyddid masnachu preifat ac yn annog defnyddio arian, wedi'u cynllunio i dawelu meddwl y gwerinwr sy'n cynhyrchu amaeth y bydd yn gallu gwerthu arian a phrynu gweithgynhyrchion gyda'r derbyniadau. Bydd yr adrannau a gynlluniwyd i gynyddu cynhyrchiant diwydiannol drwy lesio ffatrïoedd ac ailgyflwyno system fonysau yn darparu gweithgynhyrchion i'r gwerinwyr eu prynu. | |

| | |
|---|---|
| **Eitem 2** | Awdur anhysbys, yn ysgrifennu ar y dudalen *"The New Economic Policy"* ar wefan *Alpha History* (2018). Mae'r wefan yn fan i gasgliad rhyngwladol o awduron cymwysedig iawn ysgrifennu i gynhyrchu adnoddau rhad ac am ddim i gefnogi dysgu ac addysgu. |
| Strategaeth economaidd a ddatblygwyd gan Lenin oedd y Polisi Economaidd Newydd, ac fe'i roddwyd ar waith yn 1921. Roedd yn disodli'r polisi economaidd blaenorol, comiwnyddiaeth ryfel, a oedd mewn lle ers 1918. Roedd y Polisi Economaidd Newydd yn cynnwys ymlacio sylweddol ar yr economi ac ar ryddid, a fwriadwyd i roi'r hyn a elwid gan Lenin yn "ofod i anadlu" i economi Rwsia a oedd yn teimlo pwysau llym y rhyfel. Roedd y polisi hwn yn llwyddiannus yn y modd ei fod wedi arwain at adferiad a rhywfaint o enillion, yn enwedig yn y sector amaethyddol; fodd bynnag, roedd hefyd wedi denu beirniadaeth y llywodraeth Sofietaidd, gan gynnwys o fewn y Blaid Gomiwnyddol. | |



© WJEC CBAC Cyf 2024. 

SAMPL

**0 4** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch Gynlluniau Pum Mlynedd Stalin. **[5]**

**(b)** Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** fod bywyd o dan reolaeth Stalin yn well i bobl gyffredin. **[20]**

| **Eitem 3** | Chris Trueman, athro Hanes, yn ysgrifennu yn yr erthygl *"Life in USSR Under Stalin"* ar y wefan i fyfyrwyr *History Learning Site* (tua dechrau'r unfed ganrif ar hugain) |
|---|---|
| Cododd safonau byw yn y 1930au yn Rwsia er gwaethaf y problemau gyda chynhyrchu bwyd a phrinder mewn gwledydd eraill. Gwnaeth rhai pobl yn dda iawn, yn enwedig swyddogion y blaid a gweithwyr ffatri medrus. Cafodd gofal iechydei ehangu'n fawr. Yn y gorffennol, ni fyddai pobl dlotach Rwsia wedi bod yn gymwys am gymorth meddygol pan oeddent yn sâl. Nawr roedd ar gael, roedd y galw yn uchel iawn. Cynyddodd nifer y meddygon yn fawr. | |

**DIWEDD ADRAN A**

**Trowch drosodd ar gyfer Adran B**

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024.

## Adran B

### 3.6 Newidiadau yng nghymdeithas yr Unol Daleithiau tua 1880 – tua 1980

**0 5** Disgrifiwch weithgareddau'r Ku Klux Klan. **[5]**

**0 6** Esboniwch pam y cyflwynodd Franklin D Roosevelt y Fargen Newydd. **[10]**

**0 7** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch effaith masgynhyrchu yn yr 1920au. **[5]**

**(b)** Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio pam y gwnaeth economi'r Unol Daleithiau ffynnu yn y 1920au. **[15]**

| **Eitem 1** | Dan Moorhouse, athro, awdur ac aelod o'r Gymdeithas Hanesyddol Frenhinol, yn ysgrifennu yn yr erthygl "Causes of the Economic Boom in America in the 1920s" ar ei wefan Schools History (2018) |
|---|---|

Ceisiodd llywodraethau Gweriniaethol yr Arlywyddion Harding, Coolidge a Hoover, helpu busnesau Americanaidd trwy gynyddu trethi ar nwyddau tramor a oedd yn dod i mewn i'r Unol Daleithiau. Cafodd hyn ei gyflawni drwy gyflwyno deddf newydd o'r enw Deddf Tariff Fordney – McCumber ym 1922. Cafodd y trethi mewnforio newydd hyn eu galw'n 'dariffau' ac roeddent yn gwneud nwyddau oedd wedi'u gwneud y tu allan i'r Unol Daleithiau yn ddrutach i'w prynu. Roedd hyn yn ei dro yn annog Americanwyr i brynu nwyddau wedi'u gwneud yn yr Unol Daleithiau. Arweiniodd hyn at ffyniant neu gynnydd yn nifer y nwyddau a oedd yn cael eu gwneud a'u gwerthu gan fusnesau Americanaidd.

| **Eitem 2** | Donald Rea Hanson, newyddiadurwr ariannol, yn ysgrifennu yn ei erthygl *"Why This Prosperity?"* yn y cylchgrawn Americanaidd *The Forum* (Gorffennaf 1929) |
|---|---|

Mae gan y rhan fwyaf ohonom ryw syniad arwynebol ynghylch yr achosion sy'n sail i ffyniant y chwe neu wyth mlynedd diwethaf, ond mae'n debygol y byddai ein barn wedi'i lliwio gan ragfarn, gwleidyddiaeth, galwedigaeth neu gyflwr blaenorol [statws cymdeithasol blaenorol].

I'r banciwr, efallai mai stoc aur y wlad ydyw. I bennaeth undeb llafur efallai mai cyflogau uchel a'r cynnydd mewn safon byw ydyw. Byddai'r gwneuthurwr yn cyfeirio at ddatblygiad masgynhyrchu. Byddai gweithiwr ar Wall Street yn edrych at yr hyder sydd wedi'i ysbrydoli gan etholiad yr Arlywydd Coolidge ym 1924, a byddai'r sylwedydd tramor yn mynnu mai'r rhyfel, a newidiodd y wlad hon o fod yn wlad ddyledus i wlad echwynnol (*creditor nation*), y bydd rhaid i Ewropeaid dalu teyrnged iddi am flynyddoedd i ddod, oedd gwir achos ein ffyniant.



© WJEC CBAC Cyf 2024.

**0 8** Mae hwn yn gwestiwn dwy ran. Atebwch ran (a) ac wedyn rhan (b). Rhaid ateb Rhan (b) mewn testun parhaus.

**(a)** Disgrifiwch y ddeddfwriaeth hawliau sifil a gafodd ei phasio yn y 1960au. **[5]**

**(b)** Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** na chafodd Malcolm X effaith tymor hir ar y mudiad hawliau sifil. **[20]**

| **Eitem 3** | Nathan J Robinson, awdur a sylwebydd, ac Oren Nimni, cyfreithiwr hawliau sifil, yn ysgrifennu yn yr erthygl *"Reflections on Malcolm X"* yn y cylchgrawn adain chwith *Current Affairs (2018)* |
|---|---|
| Gan fod Malcolm wedi marw'n ifanc, a heb fyw i adeiladu'r Gyfundrefn Undod Affro-Americanaidd [OAAU] yn rym gwleidyddol mawr, gall rywun edrych yn ôl a chwestiynu'r yr hyn yr oedd yn sefyll drosto a beth oedd ei arwyddocâd. Ond nid oedd arweinwyr hawliau sifil yng nghyfnod Malcolm yn anghywir wrth nodi bod ei weithgareddau wedi ei wneud yn wleidyddol ymylol, ac nad oedd enillion perthnasol amlwg y gellir eu holrhain i Malcolm X. | |

**DIWEDD Y PAPUR**

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf 2024.

## CYNLLUN MARCIO

### Canllawiau i arholwyr

**Egwyddorion marcio generig**

- Marciau cyfan (nid hanner marciau na ffracsiynau eraill) a roddir bob amser.

- Dim ond pan fydd cwestiwn yn asesu ansawdd sillafu, atalnodi a gramadeg yn benodol fel y nodir yn y cynllun marcio y dylid barnu atebion ar sail y nodweddion hyn. Fodd bynnag, dylai'r ystyr fod yn ddiamwys.

- Dylid rhoi marciau gan ddefnyddio'r ystod lawn o farciau a ddiffinnir yn y cynllun marcio ar gyfer y cwestiwn (fodd bynnag; gall ansawdd ymatebion yr ymgeisydd a welir gyfyngu ar y gallu i ddefnyddio'r ystod marciau lawn).

- Rhoddir marciau yn gyfan gwbl ar sail y gofynion a ddiffinnir yn y cynllun marcio. Ni ddylid rhoi marciau gyda throthwyon gradd na disgrifyddion gradd mewn golwg.

**Marcio cadarnhaol**

Dylid cofio bod ymgeiswyr yn ysgrifennu o dan amodau arholiad a dylid rhoi marciau am yr hyn mae'r ymgeisydd yn ei ysgrifennu yn hytrach na mabwysiadu'r dull o'i gosbi am unrhyw hepgoriadau. Dylai fod yn bosibl i ymateb da iawn ennill marciau llawn ac i ymateb gwael iawn beidio ag ennill unrhyw farciau o gwbl.  Ni ddylid tynnu marciau am ateb sy'n llai na pherffaith os yw'n bodloni meini prawf y cynllun marcio.

Dylid cymhwyso'r cynllun marcio'n fanwl gywir ar gyfer cwestiynau sy'n wrthrychol neu'n seiliedig ar bwyntiau. Dylid rhoi marciau fel y dangosir heb isrannu ymhellach.

Yn aml, mae cynlluniau marcio'n cynnwys rhestr o bwyntiau y gall ymgeiswyr eu cynnwys yn eu hatebion. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr. Mae cynnwys *'Dylid rhoi marciau am unrhyw ymateb dilys arall'* (neu gyfarwyddyd tebyg) mewn cynlluniau marcio yn caniatáu ar gyfer amrywiadau posibl yn ymatebion ymgeiswyr. Dylid rhoi marciau am fanwl gywirdeb a pherthnasedd atebion ymgeiswyr.

Mae ymatebion enghreifftiol yn y cynlluniau marcio'n cyfleu terminoleg briodol. Fodd bynnag, onid oes gofyniad penodol o fewn cwestiwn, gellir rhoi marciau i ymgeiswyr lle bo'r ateb yn gywir ond wedi'i fynegi yn eu geiriau eu hunain.

**Cynlluniau marcio seiliedig ar fandiau**

Mae cynlluniau marcio cwestiynau sy'n seiliedig ar fandiau mewn dwy ran: y cynnwys dangosol a'r grid asesu.

Mae'r cynnwys dangosol yn awgrymu'r amrywiaeth o bwyntiau a materion a allai gael eu cynnwys yn atebion yr ymgeiswyr.  Gellir ei ddefnyddio i asesu ansawdd ymateb yr ymgeisydd. Fel y nodir uchod, ni fwriedir i'r cynnwys dangosol fod yn gynhwysfawr ac nid oes yn rhaid i ymgeiswyr gynnwys yr holl gynnwys dangosol er mwyn cyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio.

Fodd bynnag, i gyrraedd lefel uchaf y cynllun marcio rhaid i ymgeisydd fodloni gofynion y band marciau uchaf.  Os nad yw ymateb yn haeddu ennill marciau, hynny yw heb fod yn cynnwys unrhyw beth sy'n berthnasol i'r cynllun marcio, neu os na roddwyd ymateb, ni ddylid rhoi unrhyw farciau.

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024. 

Dylid bob amser bod yn gadarnhaol wrth farcio cwestiynau gan ddefnyddio bandiau marcio. Mae hyn yn golygu bod marciau ar gyfer ymateb pob ymgeisydd yn cael eu cronni am ddangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth briodol: Nid ydynt yn cael eu didynnu o uchafswm ar sail gwallau neu hepgoriadau.

I ddechrau, dylai arholwyr ddarllen ac anodi ateb yr ymgeisydd er mwyn nodi'r dystiolaeth sy'n cael ei hasesu yn y cwestiwn hwnnw. Yna gellir cymhwyso'r cynllun marcio. Proses dau gam yw hwn.

**Cam 1 – Penderfynu ar y band**

Gan ddechrau gyda'r band isaf, dylai arholwyr edrych ar ateb yr ymgeisydd a chadarnhau p'un a yw'n cyfateb i'r disgrifyddion ar gyfer y band hwnnw. Os bodlonir y disgrifyddion ar y band isaf, dylai arholwyr symud i fyny i'r band nesaf ac ailadrodd y broses hon ar gyfer pob band nes bydd y disgrifyddion yn cyfateb i'r ateb.

Os bydd ateb yn ymdrin ag agweddau gwahanol ar fandiau gwahanol yn y cynllun marcio, dylid defnyddio dull 'ffit orau' er mwyn penderfynu ar y band ac yna dylid defnyddio ymateb yr ymgeisydd i benderfynu ar y marc o fewn y band. Er enghraifft, os yw ateb ym mand 2 yn bennaf ond bod rhywfaint o gynnwys band 3, byddai'r ateb yn cael ei roi ym mand 2, ond byddai'r marc a roddir yn agos at ben uchaf band 2 o ganlyniad i'r cynnwys band 3.

Ni ddylai arholwyr geisio tynnu marciau oddi ar ymgeiswyr oherwydd mân hepgoriadau mewn meysydd nad ydynt yn bwysig mewn ateb.

**Cam 2 – Penderfynu ar y marc**

Yn ystod y broses safoni (y gynhadledd farcio), bydd yr Uwch Arholwr yn rhoi cyngor manwl ar rinweddau pob band marciau. Yna bydd yr arholwyr yn cael enghreifftiau o atebion ym mhob band marciau mae'r Uwch Arholwr wedi dyfarnu marciau amdano. Dylai'r arholwyr farcio'r enghreifftiau a chymharu eu marciau â marciau'r Uwch Arholwr.

Wrth farcio, gall arholwyr ddefnyddio'r enghreifftiau hyn i benderfynu a yw ateb ymgeisydd yn well, yn waeth neu o safon gymharol i'r enghraifft. Caiff arholwyr eu hatgoffa y dylen nhw edrych eto ar yr ateb wrth gymhwyso'r cynllun marcio er mwyn cadarnhau bod y band a'r marc maen nhw'n eu rhoi yn briodol i'r ateb a roddwyd.

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024. 

## Cynllun marcio ar gyfer Adran A

| Cwestiwn 1 | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch ddigwyddiadau allweddol y chwyldro Bolsiefigaidd ym 1917. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Dechreuodd y chwyldro yn 1917 gyda streiciau a phrotestiadau dros ddiffygion bwyd a blinder ynghylch y rhyfel. Arweiniodd hyn at ymddiorseddu Tsar Nicholas II a sefydlu llywodraeth dros dro wan ym mis Mawrth 1917.
- Dychwelodd Lenin o alltudiaeth ym mis Ebrill 1917 a galwodd am chwyldro ac i bobl wrthod y Llywodraeth Dros Dro yn ei 'Thesis Ebrill'. Ysbrydolodd gefnogaeth gan lawer nad oedd ganddynt hyder yn y Llywodraeth Dros Dro. Fis Gorffennaf 1917, cafwyd protestiadau arfog gan filwyr, morwyr a gweithwyr sy'n dangos fod yr anniddigrwydd yn eang. Fis Awst 1917, methodd coup yn erbyn y Llywodraeth Dros Dro (Cynllwyn Kornilov).
- Cyrhaeddodd y tensiynau benllanw ym mis Hydref 1917, pan gipiodd y Bolsieficiaid rym, dan arweiniad Lenin. Cafodd llywodraeth Sofietaidd newydd ei sefydlu gyda Lenin yn arweinydd.

| Band | AA1 |
|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| 4 | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| 3 | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| 2 | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| 1 | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| 0 | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |



© WJEC CBAC Cyf 2024.

<table>
<tr><th>Cwestiwn 2</th><th colspan="2"></th><th>Cyfanswm y marciau</th></tr>
<tr><td colspan="3">Esboniwch pam yr ildiodd Nicholas II y goron ym 1917.</td><td>[10]</td></tr>
<tr><th colspan="4">Cynnwys Dangosol</th></tr>
<tr><td colspan="4">Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>• Dioddefodd Rwsia golledion trwm yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a arweiniodd at ddadrithiad eang ei wasgariad yn y fyddin ac ymhlith y cyhoedd. Ym 1915, roedd y Tsar wedi cymryd rheolaeth bersonol dros y fyddin, felly cafodd y bai am y colledion a'r trechiadau hyn, a erydodd ei gefnogaeth.<br>• At hynny, roedd y Tsar yn gyndyn o gyflawni unrhyw ddiwygio gwleidyddol; diystyriodd y Duma pryd bynnag a'i heriodd, a arweiniodd at ddicter ymysg y pendefigaeth a'r dosbarth canol. O ganlyniad, arweiniodd hyn at Ddwma Rwsia yn gwrthwynebu'r Tsar fwyfwy a chefnogi ffurfio llywodraeth dros dro.<br>• Collodd y cyhoedd hyder yn y Tsar o ganlyniad i ddylanwad Rasputin. Gwnaeth hyn niweidio enw da'r Tsar ymhellach a phan fu aflonyddwch eang ei wasgariad ym mis Chwefror 1917, dechreuodd y fyddin gydymdeimlo â'r protestwyr gyda llawer o filwyr yn gwrthod ufuddhau gorchmynion. Enciliodd rhai o flaen y gad, gan wneud i'r Tsar edrych yn wan. Cafodd Nicholas ei orfodi i ildio'r goron ym mis Mawrth 1917 gan ei fod wedi colli rheolaeth yn ogystal â chefnogaeth y bobl.</td></tr>
<tr><th>Band</th><th>AA1</th><th colspan="2">AA2</th></tr>
<tr><td>5</td><td>5 marc<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol.</td><td colspan="2">5 marc<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.</td></tr>
<tr><td>4</td><td>4 marc<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir.</td><td colspan="2">4 marc<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd.</td></tr>
</table>

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. | **3 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| Cwestiwn 3(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch newyn 1921–1922. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Roedd sawl ffactor wedi achosi'r newyn yn 1921-2 gan gynnwys effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, rhyfel cartref a thywydd gwael a arweiniodd at sychder ym 1921 ac i gnydau fethu'n ddifrifol.
- Cafodd y sefyllfa ei gwneud yn waeth gan heriau logistaidd o ganlyniad i'r system reilffyrdd aneffeithlon na allai gludo bwyd yn effeithiol. Arweiniodd hyn at oedi o ran dosbarthu bwyd a chymorth a'r sefyllfa yn gwaethygu mewn ardaloedd gwledig.
- Bu farw rhwng 5 a 7 miliwn o bobl, gyda rhanbarthau Afonydd y Volga a'r Wral wedi'u heffeithio'n arbennig o wael. Yn ystod y newyn, lledaenodd clefydau fel colera a theiffws ac, yn ôl adroddiadau, credir bod rhai o'r newynog wedi troi at ganibaliaeth gan nad oedd cymorth digonol gan y wladwriaeth.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw'r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| Cwestiwn 3(b) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Cymharwch **a** chyferbynnwch Eitem 1 ac Eitem 2 fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio Polisi Economaidd Newydd (PEN) Lenin.<br><br>**Eitem 1** **Walter Duranty, newyddiadurwr Eingl-Americanaidd ym Moscow, yn ysgrifennu yn yr erthygl *"Lenin Places New Hope in his New Policy"* ar gyfer y *New York Times* (Medi 1921)**<br><br>Mae'r polisi newydd yn anelu i helpu'r gwerinwyr. Mae adrannau ynddo, sy'n sefydlu rhyddid masnachu preifat ac yn annog defnyddio arian, wedi'u cynllunio i dawelu meddwl y gwerinwr sy'n cynhyrchu amaeth y bydd yn gallu gwerthu arian a phrynu gweithgynhyrchion gyda'r derbyniadau. Bydd yr adrannau a gynlluniwyd i gynyddu cynhyrchiant diwydiannol drwy lesio ffatrïoedd ac ailgyflwyno system fonysau yn darparu gweithgynhyrchion i'r gwerinwyr eu prynu.<br><br>**Eitem 2** **Awdur anhysbys, yn ysgrifennu ar y dudalen *"The New Economic Policy"* ar wefan *Alpha* History (2018). Mae'r wefan hefyd yn fan i gasgliad o awduron cymwysedig iawn ysgrifennu i gynhyrchu adnoddau rhad ac am ddim i gefnogi dysgu ac addysgu.**<br><br>Strategaeth economaidd a ddatblygwyd gan Lenin oedd y Polisi Economaidd Newydd, ac fe'i roddwyd ar waith yn 1921. Roedd yn disodli'r polisi economaidd blaenorol, comiwnyddiaeth ryfel, a oedd mewn lle ers 1918. Roedd y Polisi Economaidd Newydd yn cynnwys ymlacio sylweddol ar yr economi ac ar ryddid, gyda'r bwriad o ddarparu'r hyn a elwid gan Lenin yn "ofod i anadlu" i economi Rwsia, a oedd yn teimlo pwysau llym y rhyfel. Roedd y polisi hwn yn llwyddiannus yn y modd ei fod wedi arwain at adferiad a rhywfaint o enillion, yn enwedig yn y sector amaethyddol; fodd bynnag, roedd hefyd wedi denu beirniadaeth y llywodraeth Sofietaidd, gan gynnwys o fewn y Blaid Gomiwnyddol. | | **[15]** |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| Cynnwys Dangosol |
|---|
| Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.<br><br>**Cymariaethau:**<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn canolbwyntio ar rôl Lenin wrth ddatblygu ac ymgorffori'r Polisi Economaidd Newydd.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn pwysleisio mai nodau'r polisi oedd cefnogi'r economi amaethyddol.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn pwysleisio bod rheolau economaidd wedi'u hymlacio – neu eu bod wedi'u rhyddhau.<br>• Mae Eitem 1 ac Eitem 2 yn cynnig safbwynt o'r tu allan i'r Polisi Economaidd Newydd. Daw'r cyntaf o erthygl cyfoes mewn papur newydd o'r UDA, ac mae'r ail yn drosolwg o wefan addysgol sy'n edrych yn ôl ar y cyfnod.<br><br>**Cyferbyniadau:**<br>• Mae Eitem 1 yn darparu gwybodaeth ar ddyheadau'r polisi ar amser ei chyflwyno, ac mae Eitem 2 yn mynd y tu hwnt i hyn ac yn darparu crynodeb o farn am rai o lwyddiannau'r polisi.<br>• Mae Eitem 2 yn dangos y rhesymau dros ddatblygu'r Polisi Economaidd Newydd, gan ddangos bod y polisi blaenorol – Comiwnyddiaeth ryfel – wedi bod yn annigonol wrth ddatrys y problemau economaidd a achoswyd gan y rhyfel. Mae Eitem 1, ar y llaw arall, yn canolbwyntio ar y polisi fel modd o gynorthwyo'r gwerinwyr i fod yn fwy cynhyrchiol ac i hwyluso eu pryniant o weithgynhyrchion.<br>• Mae Eitem 2 yn dangos bod gelyniaeth tuag at y polisi oddi fewn i Gomiwnyddiaeth, ac efallai na fydd awdur Eitem 1 yn ymwybodol o hyn. Gan ei bod wedi'i hysgrifennu ym mis Medi 1921 gan Walter Duranty, rhywun sydd y tu allan i'r Blaid Gomiwnyddol, mae'n annhebygol y byddai ganddo ymwybyddiaeth o'r sgeptigaeth a oedd yn bodoli o fewn y blaid, yn enwedig yn y cyfnod cynnar hwn. |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| Band | AA2 | AA3 |
|---|---|---|
| 5 | **5 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn drachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **9–10 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso trachywir, argyhoeddiadol a manwl gywir o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl ac eglur wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi'n glir mewn testun parhaus |
| 4 | **4 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn glir a chywir ar y cyfan i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **7–8 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso clir a manwl gywir ar y cyfan o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn a osodwyd.<br>• Cymariaethau a chyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a phriodoliadau<br>• Ateb wedi'i fynegi mewn testun parhaus |
| 3 | **3 marc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth yn anghyson i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. Mae rhywfaint o gywirdeb. | **5–6 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso anghyson o'r eitemau sy'n gysylltiedig â'r cwestiwn gosod, gyda rhywfaint o gywirdeb. Cymariaethau a chyferbyniadau heb eu datblygu ac wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau manwl wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a** phriodoliadau |
| 2 | **2 farc**<br>• Cymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth cyfyngedig i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd | **3–4 marc**<br>• Dadansoddi a gwerthuso cyfyngedig o'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **ac** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys a/neu briodoliadau<br>**NEU**<br>• Cymariaethau **neu** gyferbyniadau heb eu datblygu wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **a/neu** briodoliadau |

SAMPLE



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| | | |
|---|---|---|
| **1** | **1 marc**<br>• Ychydig iawn o gymhwyso gwybodaeth i fynd i'r afael â'r cysyniad hanesyddol yn y cwestiwn a osodwyd. | **1–2 farc**<br>• Ychydig iawn o ddadansoddi a gwerthuso'r eitemau<br>• Un gymhariaeth **neu** un cyferbyniad wedi'u gwneud gydag ystyriaeth o gynnwys **neu** briodoliadau |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. | |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024.

| Cwestiwn 4(a) | | Cyfanswm y marciau |
|---|---|---|
| Disgrifiwch Gynlluniau Pum Mlynedd Stalin. | | **[5]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Cyflwynodd y Cynlluniau Pum Mlynedd (Cynllun Pum Mlynedd Cyntaf 1928-32, Ail Gynllun Pum Mlynedd 1933–7 a'r Trydydd Cynllun Pum Mlynedd 1938–41) reolaeth ganolog o'r economi er mwyn gwella cynhyrchiant ac allbwn.
- Gosododd y llywodraeth dargedau cynhyrchu uchelgeisiol ar gyfer pob sector gyda seilwaith fel ffatrïoedd, rheilffyrdd a gweithfeydd pŵer wedi'u hadeiladu i gefnogi'r twf diwydiannol hwn. Fe wnaeth cyfunoli amaethyddiaeth ddatblygu ffermydd mawr wedi'u rheoli gan y wladwriaeth i gynyddu cynhyrchiant a chael gwared ar berchnogaeth tir breifat
- Cafodd cymhellion i weithwyr eu cyflwyno gyda disgyblu llym a chosbau am danberfformio. Roedd mudiad Stakhanov yn hyrwyddo gwaith caled: roedd cynhyrchedd yn cael ei glodfori ac anogwyd gweithwyr yn aml i gyflawni cwotâu afrealistig.

| Band | AA1 |
|---|---|
| **5** | **5 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir. Mae'r ddealltwriaeth yn argyhoeddiadol. |
| **4** | **4 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth hanesyddol berthnasol a manwl gywir ar y cyfan. Mae'r ddealltwriaeth yn glir. |
| **3** | **3 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos gwybodaeth berthnasol gyda rhywfaint o gywirdeb hanesyddol. Mae'r ddealltwriaeth yn ymhlyg. |
| **2** | **2 farc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos lefel gyfyngedig o wybodaeth berthnasol. Tystiolaeth gyfyngedig o ddealltwriaeth. |
| **1** | **1 marc**<br>• Mae'r ymateb yn dangos ychydig iawn o wybodaeth berthnasol. Dim tystiolaeth o ddealltwriaeth. |
| **0** | **0 marc**<br>Nid yw’r ateb yn haeddu marc neu ni wnaed ymgais i ateb. |

SAMPL



© WJEC CBAC Cyf 2024. 

| **Cwestiwn 4(b)** | | **Cyfanswm y marciau** |
|---|---|---|
| Gwerthuswch y farn yn **Eitem 3** fod bywyd o dan reolaeth Stalin yn well i bobl gyffredin.<br><br>**Eitem 3:** Chris Trueman, athro Hanes, yn ysgrifennu yn yr erthygl *"Life in USSR Under Stalin"* ar y wefan i fyfyrwyr *History Learning Site* (tua dechrau'r unfed ganrif ar hugain)<br><br>Cododd safonau byw yn y 1930au yn Rwsia er gwaethaf y problemau gyda chynhyrchu bwyd a phrinder mewn gwledydd eraill. Gwnaeth rhai pobl yn dda iawn, yn enwedig swyddogion y blaid a gweithwyr ffatri medrus. Cafodd gofal iechyd ei ehangu'n sylweddol. Yn y gorffennol, ni fyddai pobl dlotach Rwsia wedi bod yn gymwys am gymorth meddygol pan oeddent yn sâl. Nawr roedd ar gael, roedd y galw yn uchel iawn. Cynyddodd nifer y meddygon yn fawr. | | **[20]** |

**Cynnwys Dangosol**

Gall ymgeiswyr ymateb i'r cwestiwn trwy gynnig yr awgrymiadau canlynol. Nid yw'r deunydd hwn yn rhagnodol a gallai ymatebion eraill fod yn dderbyniol.

- Y farn sy'n cael ei mynegi yn Eitem 3 yw bod bywyd o dan Stalin wedi bod yn well i'r bobl gyffredin o ran safonau byw a mynediad at driniaeth feddygol. Fel y dywed yr eitem, roedd y Cynlluniau Pum Mlynedd yn annog twf diwydiannol a oedd yn darparu cyfleoedd am gyflogaeth. Roedd hyn yn arbennig o wir mewn dinasoedd â diwydiannu a datblygu trefol.
- Roedd manteision cymdeithasol ac iechyd i bobl gyffredin hefyd, er enghraifft cododd cyfraddau llythrennedd wrth i addysg am ddim ac addysg orfodol gael ei darparu. Yn ogystal, roedd rhai gwelliannau i fenywod o dan gyfundrefn Stalin megis darparu gofal plant, cyfleoedd gwaith ac adeiladu tai, a wnaeth hefyd leihau digartrefedd. O ganlyniad i'r newidiadau hyn, roedd menywod yn gallu ennill lefel uwch o annibyniaeth ariannol.
